
**Agenda Hawdd Ei Ddeall**

# Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Cyfarfod ddydd Mercher 26 Mawrth 2025**





Amser: 12.15pm tan 1.15pm



Ble: Ar-lein ar Zoom.

Gallwch gadw lle i ymuno â'r cyfarfod yma: [https://us02web.zoom.us/meeting/register/Pp5chGQ7SO-clJ7Ooaa_bg](https://us02web.zoom.us/meeting/register/Pp5chGQ7SO-clJ7Ooaa_bg)



# Agenda

Beth y byddwn ni'n siarad amdano yn ein cyfarfod

| Amser | Beth a phwy |
| --- | --- |

## 1. Croeso a chyflwyniadau




Mae Sioned Williams yn Aelod o'r Senedd ac yn Gadeirydd y grŵp.

Mae Sam Williams yn gweithio i Anabledd Dysgu Cymru ac yn gyd-Ysgrifennydd y grŵp.

Bydd Sioned a Sam yn croesawu pawb i'r cyfarfod.

## 2. Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol




Bydd Sam yn egluro beth fydd yn digwydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu AGM.

## 3. Pleidleisio dros y cyd-Ysgrifenyddion newydd

Bydd y Cadeirydd newydd yn gofyn a fyddai unrhyw un yn hoffi bod yn gyd-Ysgrifenyddion y grŵp am y 12 mis nesaf.

Yna bydd aelodau'r grŵp yn pleidleisio dros y cyd-ysgrifenyddion newydd.

**4. Pleidleisio dros y Cadeirydd newydd**

Bydd y cyd-ysgrifenyddion newydd yn gofyn a fyddai unrhyw Aelodau o'r Senedd yn hoffi bod yn Gadeirydd y grŵp am y 12 mis nesaf.

Yna bydd aelodau'r grŵp yn pleidleisio dros y Cadeirydd newydd.




**5. Yr adroddiad blynyddol**

Bydd Sam Williams yn egluro'r hyn y bydd hi'n ei roi yn yr adroddiad blynyddol i'r Senedd am waith y grŵp dros y 12 mis diwethaf.

**6. Cyflwyniad am gyflogaeth a'r prosiect Engage to Change**




Bydd Gerraint Jones-Griffiths ac Andrea Meek o Dylanwadu a Llywio Engage to Change yn siarad am yr hyn mae'r prosiect cyflogaeth â chymorth wedi'i wneud dros y 7 mlynedd diwethaf.

Byddant hefyd yn siarad am yr hyn sydd angen digwydd nesaf.




**7. Cwestiynau**

Bydd amser i bobl ofyn cwestiynau am y cyflwyniadau.

8. **Unrhyw fusnes a syniadau eraill ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol**




Bydd y Cadeirydd yn siarad am unrhyw beth arall sy'n bwysig.

Byddant hefyd yn gofyn am syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.




9. **Cau**

Bydd y Cadeirydd yn cau'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 1.15pm.